# Plant y Nant

England & Wales · Charity number 1198545

## Details

| | |
|---|---|
| Other names | CYLCH MEITHRIN PENYGROES |
| Status | Registered |
| Legal form | CIO |
| Registered | 2022-04-07 |
| Register | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| Address | Safle Ysgol Bro Lleu<br>Ffordd Y Brenin<br>Penygroes<br>Caernarfon<br>LL54 6RL |
| Phone | 07379599487 |
| Email | cylch_penygroes@hotmail.co.uk |

## Activities

**Objects:** TO ADVANCE THE EDUCATION OF PRE-SCHOOL CHILDREN IN PENYGROES THROUGH THE MEDIUM OF THE WELSH LANGUAGE. AMCANION Y GYMDEITHAS YW HYRWYDDO ADDYSG PLANT DAN OED YSGOL YN PENYGROES TRWY GYFRWNG YR IAITH GYMREAG.

**Activities:** Hyrwyddo addysg, gofal plant a chwarae cyfrwng Cymraeg i blant 2 i 12 oed yn ardal Dyffryn Nantlle

## Classification

- **How:** Provides Advocacy/advice/information
- **What:** Education/training
- **Who:** Children/young People

## Geography

- Gwynedd

Downloaded from opencharities.uk/ew/1198545

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-03-31 | £65,406 | £67,082 | - | - |
| 2024-03-31 | £61,036 | £60,371 | - | - |
| 2023-03-31 | £70,599 | £55,276 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **Elen Lloyd Pritchard** | Chair | 2022-03-01 |
| Gwyneth Bellis Jones | | 2025-09-01 |
| Jennifer Jones | | 2025-09-01 |
| Julie Higham | | 2025-09-01 |
| Kerry Jones | | 2025-10-22 |
| Mair Crookes | | 2025-10-22 |
| Robert Edward McCain III | | 2025-09-01 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1198545

**Plant y Nant**

England & Wales - Charity number 1198545

# Accounts

CHARITY COMMISSION

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod

O (dyddiad dechrau) 010424 tan (dyddiad diwedd) 310325

## Adran A — Manylion cyfeirio a gweinyddu

Enw'r elusen: CYLCH MEITHRIN PENYGROES

Enwau eraill a ddefnyddir gan yr elusen: YSGOL FEITHRIN PENYGROES

Rhif elusen gofrestredig (os oes): 1198545

Prif gyfeiriad yr elusen:
SAFLE YSGOL BRO LLEU
FFORDD Y BRENIN
PENYGROES
CAERNARFON

Cod post: LL54 6RL

Enwau'r ymddiriedolwyr elusen sy'n rheoli'r elusen

| | Enw'r ymddiriedolwr | Swydd (os oes) | Dyddiadau gweithredu os nad am flwyddyn gyfan | Enw'r person (neu gorff) sydd â hawl i benodi ymddiriedolwr (os oes) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | ELEN LLOYD PRITCHARD | CADEIRYDDES | | |
| 2 | KERRY JONES | | 22/10/2025 | |
| 3 | MAIR CROOKES | | 22/10/2025 | |
| 4 | JULIE HIGHAM | | 01/09/2025 | |
| 5 | ROBERT EDWARD McCAIN III | | 01/09/2025 | |
| 6 | JENNIFER JONES | | 01/09/2025 | |
| 7 | GWYNETH BELLIS JONES | | 01/09/2025 | |
| 8 | | | | |
| 9 | | | | |
| 10 | | | | |
| 11 | | | | |
| 12 | | | | |
| 13 | | | | |
| 14 | | | | |
| 15 | | | | |
| 16 | | | | |
| 17 | | | | |
| 18 | | | | |
| 19 | | | | |
| 20 | | | | |

Enwau'r ymddiriedolwyr ar gyfer yr elusen, os oes (er enghraifft, unrhyw ymddiriedolwyr gwarchod)

| Enw | Dyddiadau gweithredu os nad am flwyddyn gyfan |
|---|---|
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| | |

## Adran A Manylion cyfeirio a gweinyddu (continued)

Enwau a chyfeiriadau ymgynghorwyr (Gwybodaeth ddewisol)

| Math o ymgynghorydd | Enw | Cyfeiriad |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Enw'r prif weithredwr neu enwau uwch aelodau staff (gwybodaeth ddewisol)

| |
|---|
| BETHAN JONES-RHEOLWRAIG |

## Adran B — Strwythur, llywodraethu a rheoli

Disgrifiad o ymddiriedolaethau'r elusen

| | |
|---|---|
| Math o ddogfen lywodraethol (ee gweithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad) | CYFANSODDIAD |
| Cyfansoddiad yr elusen (ee ymddiriedolaeth, cymdeithas, cwmni) | YMDDIRIEDOLAETH |
| Dulliau dewis ymddiriedolwyr (ee penodwyd gan, etholwyd gan) | |

Materion llywodraethu ychwanegol (gwybodaeth ddewisol)

**Gallwch ddewis** cynnwys gwybodaeth ychwanegol, os yw'n berthnasol, am:

- bolisïau a gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer sefydlu a hyfforddi ymddiriedolwyr;
- strwythur sefydliadol yr elusen ac unrhyw rwydwaith ehangach y mae'r elusen yn ran ohono;
- y berthynas ag unrhyw bartïon perthynol;
- y prif risgiau a'r system a'r gweithdrefnau y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u hystyried i'w rheoli.

- HOLL YMDDIRIEDOLWYR I DDARLLEN A MABWYSIADU POLISIAU A GEIR GAN Y MUDIAD.
- Y CYLCH YN CYDWEITHIO GYDA'R MUDIAD, AGC, DECHRAU'N DEG A THÎM BLYNYDDOEDD CYNNAR.
- TÂN AC DIOGELU PLANT AC HEFYD ASESIAD RISG.

## Adran C — Amcanion a gweithgareddau

Crynodeb o amcanion yr elusen a nodwyd yn ei dogfen lywodraethol

HYRWYDDO ADDYSG, GOFAL PLANT A CHWARAE CYFRWNG Y GYMRAEG I BLANT 2-12 OED YN ARDAL DYFFRYN NANTLLE.

Crynodeb o'r prif weithgareddau a wnaed er budd cyhoeddus mewn perthynas â'r amcanion hyn (o fewn yr adran hon dylid cynnwys y datganiad statudol bod yr ymddiriedolwyr wedi ystyried y canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus)

DARPARU GWEITHGAREDDAU ADDAS I'R PLANT.
DILYN DIDDORDEBAU Y PLANT.
DILYN CWRICWLWM NAS CYNHELIR.
MAE YR YMDDIRIEDOLWYR WEDI YSTYRIED Y CANLLAW A GYHOEDDWYD GAN Y COMISIWN ELUSENNAU AR FUDD CYHOEDDUS.

Manylion ychwanegol am amcanion a gweithgareddau (gwybodaeth ddewisol)

**Gallwch ddewis** cynnwys datganiadau pellach, os yw'n berthnasol, am:

- bolisi rhoi grantiau;
- polisi buddsoddiad cysylltiedig â rhaglen;
- cyfraniad gwirfoddolwyr.

- DEFNYDDIO TEMPLEDI'R MUDIAD MEITHRIN A'R COMISIWN ELUSENNAU AR GYFER ARIAN.

## Adran Ch — Cyraeddiadau a pherfformiad

Crynodeb o brif gyraeddiadau'r elusen yn ystod y flwyddyn

MEDRU RHOI MYNEDIAD I POB PLENTYN SYDD EISIAU MYNYCHU Y CYLCH.

CYRRAEDD RHEOLIADAU GOFYNNION AGC.

DILYN FFRAMWAITH ADY.

## Adran D — Adolygiad ariannol

| | |
|---|---|
| Datganiad byr o bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen | CADW CRONFA WRTH GEFN RHAG OFN NI FYDD ARIAN YN Y BANC I DALU COSTAU AYYB. |
| Manylion unrhyw gronfeydd mewn diffyg sylweddol | DIM |

Manylion adolygiad ariannol pellach (gwybodaeth ddewisol)

**Gallwch ddewis** cynnwys gwybodaeth ychwanegol, os yw'n berthnasol, am:

- brif ffynonellau incwm yr elusen (gan gynnwys unrhyw godi arian);
- sut mae gwariant wedi cynnal amcanion allweddol yr elusen;
- polisi buddsoddi ac amcanion gan gynnwys unrhyw bolisi buddsoddi moesegol a fabwysiadwyd.

• GRANTIAU, GOFAL PLANT 30 AWR AC DECHRAU'N DEG.

## Adran Dd — Gwybodaeth ddewisol arall

## Adran E — Datganiad

Mae'r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod. Arwyddwyd ar ran yr ymddiriedolwyr elusen

| | | |
|---|---|---|
| Llofnod(ion) | | |
| Enw(au) llawn | BETHAN WILLIAMS | |
| Swydd (ee, Ysgrifennydd, Cadeirydd ac ati) | RHEOLWRAIG | |
| Dyddiad | 13 03 26 | |

**YSGOL FEITHRIN PENYGROES**

**ADRODDIAD ARIANNOL**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR Y 31ain O FAWRTH 2025**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| **Derbyniadau** | | |
| Ffioedd | | 10,707.25 |
| Grantiau | | 52,214.34 |
| Incwm arall | | 2,484.25 |
| | | ------------- |
| **Cyfanswm derbyniadau** | | 65,405.84 |
| **Taliadau** | | |
| Cyflogau | 49,207.45 | |
| Cyfrifo a chostau banc | 790.80 | |
| Deunyddiau ac adnoddau | 6,415.36 | |
| HMRC | 5,506.92 | |
| Pensiwn | 3,131.53 | |
| Manion | 1,728.40 | |
| Cynnal a chadw | 151.45 | |
| Aelodaeth Mudiad Ysgolion Meithrin | 150.00 | (67,081.91) |
| | ------------ | --------------- |
| **Elw'r Flwyddyn** | | (1,676.07) |
| | | ========= |
| **Cyfrif Banc** | | |
| d/y 1.4.24 | | 59,357.97 |
| Elw'r flwyddyn | | (1,676.07) |
| | | ------------- |
| Cyfanswm yn y banc 31.3.25 | | 57,681.90 |
| | | ========= |

**Cymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr:**

Arwyddwyd ar ran bwrdd yr ymddiriedolwr:

**Cadeirydd** ..Elen Pritchard.......................  **Trysorydd** ...........................................

**Dyddiad** ..13/01/2026.........................  **Dyddiad** 13/01/2026 ...........................................

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

**Adran A** Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau** | CYLCH MEITHRIN PENYGROES | | |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | 31ain o FAWRTH 2025 | **Rhif yr Elusen (os oes)** | 1198545 |
| **I'w gweld ar dudalennau** | 1 i 6 (cofiwch gynnwys rhifau tudalennau dalennau ychwanegol) | | |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu **31/03/2025**.

**Cyfrifoldebau a'r sail adrodd**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw ~~(heblaw'r hyn a ddatgelir isod *)~~ mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd:** | ER-R | **Dyddiad:** | 15/01/2026 |
| **Enw:** | EMYR RICE ROBERTS | | |
| **Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** | AELOD O'R ICAEW | | |
| **Cyfeiriad:** | EMYR MORTIMER CYF<br>32 Y MAES<br>CAERNARFON, LL55 2NN | | |

# Accounts

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

## Adran A — Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

**Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau:** Enw'r Elusen: CYLCH MEITHRIN PENYGROES

**Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu:** 31/03/2024 — **Rhif yr Elusen (os oes):** 1198545

**I'w gweld ar dudalennau:** 1 - 5 (cofiwch gynnwys rhifau tudalennau dalennau ychwanegol)

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 31/01/2024.

**Cyfrifoldebau a'r sail adrodd**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw ~~(heblaw'r hyn a ddatgelir isod*)~~ mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

*Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

**Llofnodwyd:**     **Dyddiad:**

**Enw:** Emyr Rice-Roberts

**Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** ICAEW

**Cyfeiriad:** 32 Y Maes, Caernarfon,
Gwynedd
LL55 2NN

| Adran B | Datgeliad |
|---|---|
| | Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr). |
| **Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.** | Dim i'w fanylu. |

CHARITY COMMISSION

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod

O (dyddiad dechrau) 0 1 0 4 2 3 tan (dyddiad diwedd) 3 1 0 3 2 4

## Adran A — Manylion cyfeirio a gweinyddu

Enw'r elusen: CYLCH MEITHRIN PENYGROES

Enwau eraill a ddefnyddir gan yr elusen: Ysgol Feithrin Penygroes

Rhif elusen gofrestredig (os oes): 1 1 9 8 5 4 5

Prif gyfeiriad yr elusen:
Y Caban
Safle Ysgol Bro Lleu
Penygroes
Cod post: L L 5 4 6 R L

Enwau'r ymddiriedolwyr elusen sy'n rheoli'r elusen

| | Enw'r ymddiriedolwr | Swydd (os oes) | Dyddiadau gweithredu os nad am flwyddyn gyfan | Enw'r person (neu gorff) sydd â hawl i benodi ymddiriedolwr (os oes) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Elen Pritchard | Cadeirydd | Blwyddyn Cyfan | |
| 2 | Gerallt Jones | | Blwyddyn Cyfan | |
| 3 | Llinos Haf | | Blwyddyn Cyfan | |
| 4 | | | | |
| 5 | | | | |
| 6 | | | | |
| 7 | | | | |
| 8 | | | | |
| 9 | | | | |
| 10 | | | | |
| 11 | | | | |
| 12 | | | | |
| 13 | | | | |
| 14 | | | | |
| 15 | | | | |
| 16 | | | | |
| 17 | | | | |
| 18 | | | | |
| 19 | | | | |
| 20 | | | | |

Enwau'r ymddiriedolwyr ar gyfer yr elusen, os oes (er enghraifft, unrhyw ymddiriedolwyr gwarchod)

| Enw | Dyddiadau gweithredu os nad am flwyddyn gyfan |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## Adran A — Manylion cyfeirio a gweinyddu (continued)

Enwau a chyfeiriadau ymgynghorwyr (Gwybodaeth ddewisol)

| Math o ymgynghorydd | Enw | Cyfeiriad |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Enw'r prif weithredwr neu enwau uwch aelodau staff (gwybodaeth ddewisol)

Mrs Bethan Jones

## Adran B — Strwythur, llywodraethu a rheoli

Disgrifiad o ymddiriedolaethau'r elusen

Math o ddogfen lywodraethol (ee gweithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad): Cyfansoddiad

Cyfansoddiad yr elusen (ee ymddiriedolaeth, cymdeithas, cwmni): Ymddiriedolaeth

Dulliau dewis ymddiriedolwyr (ee penodwyd gan, etholwyd gan):

Materion llywodraethu ychwanegol (gwybodaeth ddewisol)

**Gallwch ddewis** cynnwys gwybodaeth ychwanegol, os yw'n berthnasol, am:

- bolisïau a gweithdrefnau a fabwysiadwyd ar gyfer sefydlu a hyfforddi ymddiriedolwyr;
- strwythur sefydliadol yr elusen ac unrhyw rwydwaith ehangach y mae'r elusen yn ran ohono;
- y berthynas ag unrhyw bartïon perthynol;
- y prif risgiau a'r system a'r gweithdrefnau y mae'r ymddiriedolwyr wedi'u hystyried i'w rheoli.

- Holl ymddiriedolwyr i ddarllen a mabwysiadu Polisiau a geir gan y Mudiad.
- Y cylch yn gweithredu gyda Mudiad, AGC, Dechrau'n Deg a thîm blynyddoedd cynnar.

| Adran C | Amcanion a gweithgareddau |
|---|---|
| Crynodeb o amcanion yr elusen a nodwyd yn ei dogfen lywodraethol | Darparu addysg feithrin ac addysg i blant 2-4 oed. |
| Crynodeb o'r prif weithgareddau a wnaed er budd cyhoeddus mewn perthynas â'r amcanion hyn (o fewn yr adran hon dylid cynnwys y datganiad statudol bod yr ymddiriedolwyr wedi ystyried y canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus) | Darparu gweithgareddau addas i'r plant. Dilyn diddordebau y plant. Dilyn cwricwlwm nas cynhelir. Yr ymddiriedolwyr wedi ystyried y canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. |

Manylion ychwanegol am amcanion a gweithgareddau (gwybodaeth ddewisol)

| | |
|---|---|
| **Gallwch ddewis** cynnwys datganiadau pellach, os yw'n berthnasol, am:<br>• bolisi rhoi grantiau;<br>• polisi buddsoddiad cysylltiedig â rhaglen;<br>• cyfraniad gwirfoddolwyr. | Addasu ein cynllun busnes. |

| Adran Ch | Cyraeddiadau a pherfformiad |
|---|---|
| Crynodeb o brif gyraeddiadau'r elusen yn ystod y flwyddyn | • Gallu rhoi mynediad i pob plentyn sydd eisio mynychu y Cylch.<br>• Cyrraedd rheoliadau AGC. |

## Adran D — Adolygiad ariannol

| Datganiad byr o bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen | Sicrhau 2 gyfrif banc. 1 ar gyfer gwariant dydd i ddydd ac un ar gyfer arian tu cefn |
|---|---|
| Manylion unrhyw gronfeydd mewn diffyg sylweddol | |

Manylion adolygiad ariannol pellach (gwybodaeth ddewisol)

**Gallwch ddewis** cynnwys gwybodaeth ychwanegol, os yw'n berthnasol, am:

- brif ffynonellau incwm yr elusen (gan gynnwys unrhyw godi arian);
- sut mae gwariant wedi cynnal amcanion allweddol yr elusen;
- polisi buddsoddi ac amcanion gan gynnwys unrhyw bolisi buddsoddi moesegol a fabwysiadwyd.

Arian Dechrau'n Deg, addysg Feithrin a gofal Plant 30 awr.

## Adran Dd — Gwybodaeth ddewisol arall

## Adran E — Datganiad

Mae'r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod.

Arwyddwyd ar ran yr ymddiriedolwyr elusen

| | | |
|---|---|---|
| Llofnod(ion) | | |
| Enw(au) llawn | Bethan Jones | |
| Swydd (ee, Ysgrifennydd, Cadeirydd ac ati) | Rheolwraig | Ymddiriedolwr |
| Dyddiad | D D M M B B | |

**CYLCH MEITHRIN PENYGROES**

**ADRODDIAD ARIANNOL**

**AM FLWYDDYN YN DIWEDDU AR Y 31ain O FAWRTH 2024**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| **Derbyniadau** | | |
| Ffioedd | | 14,117.31 |
| Grantiau | | 46,919.49 |
| | | -------------- |
| **Cyfanswm derbyniadau** | | 61,036.80 |
| **Taliadau** | | |
| Cyflogau | 46,468.21 | |
| Treth cyflogaeth ac yswiriant gwladol | 4,933.99 | |
| Pensiwn | 2,918.58 | |
| Man-daliadau | 1,351.83 | |
| Cynnal a chadw | 177.86 | |
| Deunyddiau ac adnoddau | 3,523.29 | |
| Cyfrifo a chostau banc | 997.50 | (60,371.26) |
| | ------------- | --------------- |
| **Gwarged am y Flwyddyn** | | 665.54 |
| | | ========= |
| **Cyfrif Banc** | | |
| d/y 1.4.23 | | 58,692.43 |
| Gwarged am y flwyddyn | | 665.54 |
| | | -------------- |
| Cyfanswm yn y banc 31.3.24 | | 59,357.97 |
| | | ========= |

**Cymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr:**

Arwyddwyd ar ran bwrdd yr ymddiriedolwr:

**Cadeirydd** ..........................................  **Trysorydd** ..........................................

**Dyddiad** ..........................................  **Dyddiad** ..........................................

# Accounts

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN



# Llawlyfr i rieni

**Cylch Meithrin Penygroes**
**Y Caban**
**Safle Ysgol Bro Lleu**
**Ffordd y Brenin**
**Pen-y-groes**
**LL54 6RE**

**Rhif ffôn y Cylch:**
**07379599487**

**Rhif Ffon AGGCC**
**0300 7900 126**

## Croeso i Gylch Meithrin Pen-y-groes

## Nod ac amcanion y Cylch

Nod Cylch Meithrin Pen-y-groes yw rhoi cyfle i blant ifanc fanteisio ar wasanaeth a phrofiadau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol ag athroniaeth Mudiad Ysgolion Meithrin a safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer sesiynau dyddiol.

Er mwyn anelu at roi'r profiadau dysgu gorau i'r plant rydym ni fel cylch yn darparu amgylchedd diogel a hapus, sy'n  llawn o brofiadau cyfoethog ac sy'n ysgogi plant i ddysgu, chwarae, cyflawni a chael hwyl. Rydym yn hyrwyddo'r addysg drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ac felly yn rhoi llawer o gyfleoedd gwahanol i'r plant arbrofi gyda gwahanol weithgareddau yn y Gymraeg.

Rydym ni yn y cylch yn rhoi pwyslais ar gael y plant i ddysgu trwy brofiad ac felly rydym yn dilyn y 5 llwybr dysg. Mae hyn yn golygu bod y plant yn datblygu mewn amryw o ffyrdd gwahanol wrth wneud pethau maent yn mwynhau ac maent yn cael hwyl yn ogystal.

Y 5 llwybr dysgu ydi:-

- Perthyn
- Cyfathrebu
- Archwilio
- Datblygiad corfforol
- Lles

Er mwyn gweld cynnwys pob un o'r 5 llwybr dysgu uchod awgrymwn eich bod yn edrych ar y llyfryn 'Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir' .

## Pwyllgor Rheoli

Mae'r Cylch yn cael ei reoli gan bwyllgor o wirfoddolwyr. Nid oes yr un o'r aelodau'n derbyn tâl na braint am wneud y gwaith.

Mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod y Cylch yn cydymffurfio â'r AGC (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) ar gyfer sesiynau dyddiol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Os oes gennych unrhyw ddatganiad neu gwyn i'w wneud ynglŷn ag unrhyw agwedd o weithgareddau'r Cylch, dylech gysylltu â'r pwyllgor. Mae manylion cyswllt pob aelod o'r pwyllgor yng nghyntedd yr ysgol feithrin.

**Swyddogion y Pwyllgor Rheoli:**

Person Cofrestredig a Chadeirydd: Elen Pritchard
Ysgrifenyddes: Llinos Haf
Trysorydd : Gerallt Jones
Rheolwraig: Bethan Jones

Bydd aelodau'r pwyllgor yn newid bob dwy flynedd ar gyfartaledd a bydd angen rhieni newydd ar y pwyllgor i wirfoddoli i gymryd swyddi a sicrhau bod pwyllgor llawn yn bodoli drwy gydol yr amser. Cysylltwch ag aelod o'r staff neu â'r pwyllgor os hoffech gefnogi'r pwyllgor drwy ymuno. Rydym yn gwerthfawrogi pob arwydd o gymorth.

## Y Cylch Meithrin

Mae'r Cylch Meithrin yn rhan o Fudiad Ysgolion Meithrin, y corff sydd yn cefnogi pob Cylch Meithrin lleol ac sydd yna i gynnig arweiniad iddynt.
Mae gan bob Cylch Meithrin swyddog datblygu sy'n cynghori'r Cylch ar faterion ddaw i fyny o dro i dro. Swyddog Datblygu Cylch Meithrin Penygroes yw Eifiona Davies ac mae ei rhif ffôn i'w gael yn y Cylch.

**Prif nod Cylch Meithrin Penygroes yw bod gan bob plentyn:**

- Yr hawl i dderbyn gofal, cariad a pharch
- Yr hawl i dderbyn sylw a chefnogaeth briodol, fydd yn cwrdd â'i anghenion arbennig.
- Yr hawl i fanteisio ar bob cyfle i chwarae
- Yr hawl i dderbyn arweiniad, fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyflawn o'r gymdeithas.
- Yr hawl i gael ei symbylu i'w alluogi i ddatblygu i'w lawn botensial
- Yr hawl i gael cyfle i fanteisio ar brofiadau meithrin drwy'r iaith Gymraeg.
- Yr hawl i gael ei drin yn gyfartal waeth beth fo'i hil, lliw, crefydd, cenedl neu gefndir cymdeithasol.

Bydd y Cylch yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni i hyrwyddo'r gwerthoedd hyn.

Mae Cylch Meithrin Penygroes wedi ei gofrestru ar gyfer 18 o blant rhwng dyflwydd a phedair oed. Mae'r Cylch yn darparu "Gofal Dydd Llawn". Mae Gofal Dydd Llawn yn cyfeirio at gyfleusterau sy'n darparu gofal dydd i blant am gyfnod parhaus o 4 awr neu fwy mewn unrhyw ddiwrnod.

Mae'r Cylch Meithrin yn gwneud defnydd o'r holl adeilad sydd ar gael iddynt (hynny yw y Caban) yn ogystal â iard bach y Cylch.

Cynigir amryw o brofiadau a chyfleoedd dysgu i'r plant drwy chwarae â thywod a dŵr, clai, yn y tŷ bach twt, gemau bwrdd a jig-so, crefft a phaent, amser stori a chwarae allan ar feiciau a.y.b.
Bydd cyfle i'r plant wrando ar storiâu, chwarae dychmygol, canu a dawnsio.

Bydd seibiant yn ystod y sesiwn i gael diod a thamaid i'w fwyta. Rydym yn cynnig bwydlen iachus gyda diod o lefrith neu ddŵr.

Croesewir plant ag anghenion arbennig a bydd yr holl weithgareddau ar gael iddynt a threfnir person ychwanegol i'w cefnogi os oes angen.

Peidiwch â danfon eich plant yn eu dillad gorau - mae chwarae yn aml yn achosi llanast!

Cymraeg yw iaith y Cylch Meithrin. Mae rhai o'r plant o gartrefi Di-Gymraeg, ond Cymraeg fyddwn ni'r oedolion yn siarad â nhw bob amser a chyn pen dim o dro byddant yn deall y cwbl bron.

Mae Cylch Meithrin Penygroes yn ran o raglen Dechrau'n Deg. Prosiect gan y Llywodraeth yw Dechrau'n Deg, sy'n gweithio gyda plant o dan 4 oed, a'i fwriad yw gwella sgiliau'r plant, gan eu paratoi ar gyfer yr ysgol, yn ogystal â'u paratoi ar gyfer bywyd yn gyffredinol. Mae cynllun Dechrau'n Deg yn targedu wardiau penodol o fewn Gwynedd ac, yn ddibynnol ar eich côd post, mae'n bosib y byddwch yn gymwys i fod yn rhan o'r cynllun.

Mae 4 elfen i Dechrau'n Deg:

- Gofal plant o ansawdd am ddim rhan amser i blant 2-3 oed
- Gwasanaeth estynedig gan ymwelwyr iechyd
- Mynediad at raglenni rhianta
- Lleferydd iaith a chyfathrebu

Mae hyn yn sicrhau ein bod yn targedu cymorth tuag at blant gydag anghenion penodol. Golygir hyn bod ymweliadau o bryd i'w gilydd gan Uwch Athrawes Dechrau'n Deg, Ymwelydd Iechyd, Therapydd Iaith ac ati.

Ymhellach, mae'n ofynnol i staff gwblhau cynllun hyfforddiant penodol sydd yn eu galluogi i ddarparu cefnogaeth ac addysg o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys cynnal grwpiau iaith a sesiynau amrywiol.

## Y Staff

Y pwyllgor rheoli sy'n penodi ac yn cyflogi'r staff. Maent hefyd yn gyfrifol am y sesiwn bore, sesiwn cynllun clwb cinio a sesiwn prynhawn.

Mae pob aelod o staff wedi eu cofrestru gyda'r AGC ac mae'r wybodaeth a gyflwynir iddynt yn cydymffurfio â rheolau gofynnol. Mae'r person cofrestredig a'r person mewn gofal yn cael gwiriad gan y DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - Disclosure and Barring Service).

Mae pob aelod o staff yn hyddysg mewn cymorth cyntaf.

Mae arweinydd y Cylch yn gymwys ym maes gofal plant ac mae'n ofynnol bod gan arweinydd pob Cylch Meithrin o leiaf ddiploma lefel 3 mewn gofal ac addysg

yn y blynyddoedd cynnar. Mae’r staff yn mynychu cyrsiau sydd yn berthnasol i’w swyddi yn rheolaidd.

Arweinydd – Bethan Jones
Is-Arweinydd – Caroline Hobson
Cymhorthwraig – Kimberley Griffith

## Ffurflen gofrestru

Mae'n rhaid i bob rhiant lenwi ffurflen gofrestru a chytundeb ar gyfer pob plentyn sy’n mynychu’r cylch. Mae’n rhaid ateb bob cwestiwn er lles y plant. **Rhaid i’r ffurflen gael ei chyflwyno i’r staff cyn i’r plentyn gychwyn yn y cylch. Mae’n ofynnol bod ffurflen ‘Casglu Plentyn’ yn cael ei llenwi gan gynnwys lluniau o’r rhiant neu berthynas/ffrind sydd yn debygol o gasglu’r plentyn o’r Cylch.**

## Gweithdrefnau Ymarferol

Bydd Cylch Meithrin Penygroes ar agor o 8.30 tan 11.00 o’r gloch am y **sesiwn bore** ar y dyddiau canlynol:

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener

Pris sesiwn bore yw £5.00, sef £25.00 yr wythnos.

Bydd Cylch Meithrin Penygroes ar agor ar gyfer y **cynllun clwb cinio** rhwng 11.00 a 1.00 y prynhawn ar y dyddiau canlynol:

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener

Pris sesiwn clwb cinio yw £5.00, sef £25.00 yr wythnos.

Bydd Cylch Meithrin Penygroes ar agor o 1:00 tan 2:45 o’r gloch am y **sesiwn prynhawn** ar y dyddiau canlynol:

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau

- Dydd Gwener

Pris sesiwn bore yw £4.00, sef £20.00 yr wythnos.

Mae Ysgol Bro Lleu yn gofyn i rieni beidio â dod drwy giatiau'r ysgol i gasglu eu plant o’r Cylch Meithrin.

**Taliadau**

**Gofynnir i’r ffi wythnosol gael ei thalu ymlaen llaw ar ddechrau’r wythnos.** Mae taliadau’r plant yn talu am gyflogau’r staff ac am redeg y gwasanaeth felly mae’n hanfodol bod taliadau’n cael eu derbyn yn wythnosol.

Os yw taliadau'n hwyr bydd y pwyllgor yn llythyru’r rhiant ymhen pythefnos o gyfnod heb daliadau. Os nad ydi’r ddyled yn cael ei chlirio mewn pythefnos bydd y plentyn yn colli ei le yn y Cylch hyd nes bydd y ddyled wedi ei chlirio.

Os bydd y Cylch neu'r Clwb Cinio'n gorfod cau oherwydd tywydd garw neu o ganlyniad i dywydd garw e.e dim trydan/ dŵr/ gwres, yna ni fydd gofyn talu. Ni fydd angen talu yn ystod gwyliau ysgol, hyfforddiant staff a gwyliau banc.

**Absenoldeb oherwydd salwch neu wyliau teulu:**

**Mae gennych gytundeb â’r Cylch am le i’ch plentyn a bydd yn ofynnol i chi dalu'r tâl arferol yn ystod salwch y plentyn neu wyliau teulu er nad yw’r plentyn yn mynychu’r Cylch.**

**Tymhorau'r mudiad**

Bydd eich plentyn yn derbyn addysg am ddim wedi iddo/iddi droi'n dair oed. Os yw eich plentyn yn 3 cyn Rhagfyr 31ain yna ni fyddwch yn talu am wasanaeth y cylch o Ionawr y 1af ymlaen. Os yw eich plentyn yn 3 oed rhwng 1af o Ionawr a 31ain o Fawrth, yna ni fyddwch yn talu o 1af o Ebrill ymlaen. Os yw eich plentyn yn cael ei benblwydd ar ôl hyn, yna fe fydd rhaid talu nes diwedd tymor yr haf. Nid yw hyn yn berthnasol i'r clwb cinio. Bydd angen talu am y gwasanaeth yma drwy'r flwyddyn.

**Gweithgareddau codi arian**

Gan nad ydi taliadau'r plant a grantiau gan y Cyngor yn ddigon o arian i redeg y gwasanaeth, mae gweithgareddau codi arian yn cael eu cynllunio yn rheolaidd drwy’r flwyddyn. Disgwylir i bob rhiant gymryd rhan os gwelwch yn dda, er mwyn sicrhau llwyddiant wrth godi arian ac er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Cylch. Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw syniadau codi arian sydd gennych.

**Tywydd Garw/Argyfyngau**

Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn ac oedolyn yn ddiogel beth bynnag fo'r sefyllfa o argyfwng, a sicrhau bod trefniadau addas yn eu lle i alluogi'r Cylch i ddilyn y canllawiau isod:

Cyfrifoldeb yr Arweinydd a'r Pwyllgor yw penderfynu a ddylid cau ai peidio. Bydd y penderfyniad yn ddibynnol ar asesiad o'r ffactorau perthnasol gan gynnwys rhagolygon y tywydd, y sefyllfa yn y Cylch a'r ardal tu allan, gan gynnwys Ysgol Bro Lleu a sefyllfa aelodau staff a theithio a.y.y.b.

Pan gymerir penderfyniad i gau'r Cylch, bydd yr Arweinydd yn hysbysu'r rhieni.

## Polisi Rhestr Aros / Derbyn Plant i'r Cylch Meithrin (sesiwn y bore)

**1.** Bydd lle i blant 2 – 3 oed yn dibynnu ar y nifer o lefydd gwag sydd yn y Cylch ar yr adeg honno.

**2.** Mewn achos lle mae plentyn yn 2 ½ oed cyn mis Medi ceisir sicrhau bod ychydig o ddyddiau ar gael iddo / iddi, ond eto mae hyn yn dibynnu ar y nifer o leoedd gwag sydd yn y Cylch. Rhaid sylweddoli, er enghraifft, na ellir cadw lle yn wag i blentyn sy'n 2 ½ oed ym mis Gorffennaf am flwyddyn.

**3.** Ceisiwch lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer plentyn mor fuan ag sy'n bosibl rhagofn y bydd nifer o blant o'r un oedran eisiau lle yr un pryd.

**4.** Hefyd, bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i blant lleol sydd yn bwydo Ysgol Bro Lleu.

## Rheoli Ymddygiad

Nod y cylch yw darparu amgylchedd hapus a llawn gofal i'r plant wrth hyrwyddo dealltwriaeth plentyn o ymddygiad derbyniol. Dangosir parch tuag at bob plentyn drwy'r amser.

**Côd ymarfer**

- Bydd y Cylch yn anelu at greu amgylchedd sy'n sicrhau agweddau positif gan y plant a'r oedolion ac sy'n ceisio osgoi bod ymddygiad annerbyniol yn datblygu.
- Bydd y Cylch yn sicrhau bod pob dull a ddefnyddir i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn addas ar gyfer oedran a lefel datblygiad y plentyn unigol. Bydd staff y Cylch yn sicrhau bod cysondeb yn y dulliau a ddefnyddir o ddydd i ddydd ac o berson i berson.
- Bydd y plant a'u rhieni yn ymwybodol o reolau'r Cylch a'r ffiniau a osodir.

- Bydd y Cylch yn cymryd camau positif i addasu ymddygiad annerbyniol.
- Bydd ymddygiad da bob amser yn cael ei gydnabod a'i ganmol.
- Ni ddisgyblir y plant yn gorfforol trwy guro nac ysgwyd.
- Ni ddisgyblir plant yn emosiynol trwy weiddi arnynt na'u hynysu.

Os yw plentyn yn ymddwyn yn ymosodol tuag at blentyn/plant eraill yn gyson, bydd staff y Cylch yn ei dywys o'r sefyllfa, yn ei dawelu, ac yn egluro mewn ffordd sy'n ddealladwy iddo nad yw'r math hwn o ymddygiad yn dderbyniol. Cofnodir hyn yn y llyfr digwyddiadau. Fel bo ymddygiad y plentyn yn gwella, rhoddir pob anogaeth a chanmoliaeth iddo.

Ymhob achos lle mae ymddygiad plentyn yn achosi gofid, bydd Arweinydd y Cylch yn trafod y sefyllfa yn bositif gyda'r rhieni ar yn datblygu cynllun i wella'r sefyllfa.

**Mae croeso i rieni gael copi llawn o'r polisi 'Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol' o'r ffeil MYM yn yr ysgol feithrin.**

## Adroddiad ysgrifenedig ar ddatblygiad plant

Bydd y staff yn paratoi Llyfr Taith Dysgu ar ddatblygiad y plant ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn i'r rhieni gael blas ar brofiadau a datblygiad eu plant.

## Polisïau

Mae gan y Cylch lawlyfr ar nifer o feysydd penodol sy'n ymwneud â threfn a gweithgareddau'r Cylch. Ceir rhestr ohonynt isod, a bydd croeso i chi gael gweld y polisïau cyflawn yn y Cylch.
Mae croeso i chi eu darllen unrhyw adeg, gofynnwch i aelodau o'r pwyllgor neu'r Arweinydd.

Dyma restr o'r polisïau:

- Polisi yr Iaith Gymraeg
- Polis Amddiffyn rhag yr haul
- Polisi Asthma
- Polisi bwyta'n iach a chadw'n heini
- Polisi Cadw plant rhag crwydro
- Polisi canmol a chwyno
- Polisi cludo a throsglwyddo plant
- Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Polisi cyfrinachedd
- Polisi cynhwysiant
- Polisi chwythu'r chwiban
- Polisi derbyn
- Polisi Di-fwg
- Polisi diogelu data
- Polisi diogelu plant

- Polisi gadael a chasglu plant
- Polisi hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol
- Polisi Iechyd, diogelwch a Lles
- Polisi meddyginiaeth
- Polisi newid clwt/ cewyn
- Polisi Rhyngweithio
- Polisi salwch, afiechydon heintus a damweiniau
- Polisi staffio
- Polisi tynnu lluniau

## Polisi Canmol a chwyno

**Nod**
Nod y Cylch yw darparu gwasanaeth o'r safon uchaf ym mhob agwedd o'i waith.

**Egwyddor.**
Mae'r Cylch yn cefnogi'r egwyddor o dderbyn barn rhieni a phobl broffesiynol dynodedig ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir (yn ogystal, wrth gwrs, â barn y plant), fel y gellir ei wella os oes angen. Hysbysir rhieni ynglŷn â'r polisi a threfn canmol a chwyno cyn i'w plentyn gychwyn yn y Cylch. Mae bocs awgrymiadau yng nghyntedd y Cylch. Mae croeso i chi roi eich sylwadau ar bapur yn y bocs awgrymiadau. Yn ogystal â hyn, byddwn yn gwerthuso'r gwasanaeth a gynigir yn flynyddol ac yn gofyn i rieni gwblhau holiadur mewn perthynas â'r gwasanaeth.

**Côd Ymarfer**
Bydd y Cylch yn cymryd pob cwyn o ddifrif, ac yn ceisio ei ddatrys mewn modd adeiladol cyn gynted â phosib.
Bydd y Cylch yn croesawu sylwadau canmoliaethus bob amser, ond os bydd angen i unrhyw un fynegi anfodlonrwydd, dylid dilyn y camau isod:

- Cysylltu ag arweinydd y Cylch neu gadeirydd y pwyllgor i ddatgan y gwyn. Darperir adroddiad o fewn 3 diwrnod gwaith.
- Os na ellir datrys y mater yn dderbyniol cyfeirir y mater yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig i bwyllgor y Cylch. Bydd y pwyllgor yn ymchwilio'r mater ac yn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith.
- Os nad yw'r ymchwiliad wedi ei gwblhau o fewn yr amser penodol, dylid cyflwyno adroddiad interim i'r person a gwynodd, ynghyd ag esboniad o'r angen am amser ychwanegol.
- Dylid cwblhau'r ymchwiliad a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod. Os yw'r mater dal heb ei ddatrys dylid hysbysu AGGCC.
- Cedwir unrhyw ohebiaeth, nodiadau ac adroddiadau ar yr achos gan y Cylch a byddant ar gael i'r AGGCC eu gweld.

Os yw'r gwyn yn ymwneud â chyhuddiad o gamdriniaeth i blentyn, bydd y Cylch yn gweithredu ar unwaith drwy ddilyn y gweithdrefnau lleol ar gyfer amddiffyn plant.

Cyfeiriad a rhif ffôn AGC:-
AGC,
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sarn Mynach,
Cyffordd Llandudno,
LL31 9RZ
0300 7900 126

**Materion amddiffyn Plant**
Bydd unrhyw achos yn ymwneud ag amddiffyn plant yn cael ei gyfeirio at wasanaethau cymdeithasol Cyngor Gwynedd yn ogystal â'r AGC

**Plant sydd mewn clytiau**
Mae cyfleusterau newid clytiau ar gael yn y Cylch ac mae gan y Cylch bolisi ynglŷn â newid clytiau. Pan fydd y staff yn newid clytiau'r plant / mynd â nhw i'r toiled, byddant yn trin y plant ag urddas a gofal. Bydd y staff yn gwneud yn siwr bod yr amser hwn yn amser diffwdan i'r plant ac ni fyddant yn gwneud unrhyw sylwadau negyddol.

Rydym yn gofyn i rieni / gofalwyr ddod â'r canlynol i'r Cylch:

- Clytiau
- Wipes
- Dillad / dillad isaf glan
- Bagiau ar gyfer y clytiau

Y drefn

- Dim ond staff sydd wedi cael Datgeliad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) fydd yn newid clytiau / mynd â'r plant i'r toiled
- Bydd y plant yn cael eu newid fel bo'r angen
- Bydd y plant yn cael eu newid ar yr uned newid clytiau sydd yn y tolied i'r anabl
- Bydd staff yn gwisgo menyg tafladwy a ffedog dafladwy bob tro
- Bydd clytiau budr yn cael eu rhoi mewn dau fag ac yn cael eu rhoi i'r rhiant / gofalwr i gael gwared arnynt pan fyddant yn dod i nôl y plentyn
- Bydd y mat newid yn cael ei lanhau â wipes / hylif gwrthfacterol ar ôl i bob plentyn gael ei newid
- Bydd staff yn golchi eu dwylo â dŵr poeth a sebon ac yn defnyddio'r tywelion tafladwy i sychu eu dwylo ar ôl gorffen newid y plentyn

**Plant ag anghenion arbennig**
Mae'r Cylch yn derbyn plant ag anghenion arbennig. Mae toiled ar gyfer plant ag angenion arbennig.

**Polisi Bwyd ar gyfer Byrbrydau Iach**
Ein nod ni fel Cylch Meithrin yw sefydlu arferion bwyta da fydd yn aros gyda'r plant am weddill eu hoes:

- Byddwn yn anelu i gyflawni hyn trwy annog arferion bwyta cymdeithasol da mewn amgylchedd glân
- Cynigir byrbryd iach yn ystod sesiwn y bore, gyda dŵr neu lefrith i yfed
- Nid ydym yn darparu bwyd ar gyfer y sesiwn clwb cinio, a disgwylir i'r plant ddod â'u bocs bwyd eu hunain i'r sesiwn. Fodd bynnag, byddwn yn hyrwyddo bwyta'n iach pob cyfle posib, gan gynnwys, lle bo modd, osgoi bwydydd sy'n cynnwys braster hydrogenedig neu sydd yn cynnwys llawer o siwgr neu halen (e.e. bisgedi, creision neu felysion). Byddwn bob amser yn sicrhau bod dŵr ar gael i yfed
- Gallwn ddarparu syniadau ac enghreifftiau o focsys bwyd iach i rieni ac rydym yn annog rhieni i drafod syniadau gyda ni
- Mae oergell ar gael yn y Cylch Meithrin gyda lle i storio bocsys bwyd y plant sydd yn dod i mewn ar gyfer sesiwn y bore, hynny yw am 9 o'r gloch
- Mae croeso i chi gael gweld y polisi cyflawn yn y Cylch

**Mudiad Ysgolion Meithrin. (MYM)**

Bydd y Mudiad yn annog cylchoedd i werthuso'r gwasanaeth yn flynyddol drwy ddefnyddio holiadur. Mae'r pwyllgor yn bwriadu adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol. Byddwn yn ddiolchgar o'ch cefnogaeth drwy lenwi'r holiadur yn ystod yr adolygiad.

Am fwy o fanylion neu wybodaeth am MYM gwelwch y wefan – www.mym.co.uk neu amryw bamffledi sydd wedi eu cynhyrchu gan MYM.

**Gofynnir i bob rhiant sicrhau eu bod wedi darllen y wybodaeth ynglŷn â'r drefn gyda thaliadau a thâl yn ystod cyfnod o absenoldeb neu salwch. Diolch yn fawr.**

Adroddiad ariannol am y flwyddyn 2022 – 2023

Rydyn wedi derbyn £70,598.81 o bres yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r arian wedi dod o ffioedd y plant, gofal plant 30 awr a Dechrau'n Deg.
Nid oes arian wedi cael godi drwy godi arian, mae hyn yn rhywbeth rydym an ei edrych arno yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.
Mae y lleoliad wedi gwario £55,276.30 yn ystod y flwyddyn ariannol.
Gwarier yr arian ar gyflogau, HMRC, pensiynau, ymuno gyda'r Mudiad, DBS, Adnoddau YPO.

**YSGOL FEITHRIN PENYGROES**

**ADRODDIAD ARIANNOL**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU'R 31 MAWRTH, 2023**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| **Derbyniadau:** | | |
| Ffioedd | | 14,266.13 |
| Cyngor Gwynedd | | 56,332.68 |
| | | ------------ |
| **Cyfanswm derbyniadau** | | 70,598.81 |
| **Taliadau** | | |
| Cyflogau | 43,427.13 | |
| Cyfrifo a Chostau Banc | 713.60 | |
| YPO | 2,102.18 | |
| DBS | 110.00 | |
| HMRC | 5,084.29 | |
| Deunyddiau ac Adnoddau | 1,202.57 | |
| Cynllun Cyfeirio | 40.00 | |
| Pensiwn | 2,282.43 | |
| Mudiad Meithrin | 173.00 | |
| ICO | 40.00 | |
| Snowdonia Fire Protection | 101.10 | (55,276.30) |
| | ------------ | ------------ |
| **Elw'r flwyddyn** | | 15,322.51 |
| | | ======= |
| **Cyfrif Banc** | | |
| d/y 1.4.22 | | 43,369.92 |
| Elw'r flwyddyn | | 15,322.51 |
| | | ------------ |
| Cyfanswm yn y banc 31.3.23 | | 58,692.43 |
| | | ======= |

**Tystysgrif Archwilwyr**

Archwiliwyd y derbyniadau a'r taliadau gennyf ynghyd â'r adroddiad uchod a tystiaf eu bod yn unol â'r llyfrau a'r talebion perthnasol.

**Archwilydd** ..........................................................

**Dyddiad** 8/1/2024

CHARITY COMMISSION FOR ENGLAND AND WALES

# Independent examiner's report on the accounts

## Section A — Independent Examiner's Report

| | |
|---|---|
| **Report to the trustees/ members of** | Charity Name: YSGOL FEITHRIN PENYGROES |
| **On accounts for the year ended** | 31\3\2023 — **Charity no (if any)**: |
| **Set out on pages** | 1 (remember to include the page numbers of additional sheets) |

I report to the trustees on my examination of the accounts of the above charity ("the Trust") for the year ended 31/03/2023.

**Responsibilities and basis of report**

As the charity's trustees, you are responsible for the preparation of the accounts in accordance with the requirements of the Charities Act 2011 ("the Act").

I report in respect of my examination of the Trust's accounts carried out under section 145 of the 2011 Act and in carrying out my examination, I have followed all the applicable Directions given by the Charity Commission under section 145(5)(b) of the Act.

**Independent examiner's statement**

[~~The charity's gross income exceeded £250,000 and~~ I am qualified to undertake the examination by being a qualified member of [insert name of applicable listed body]]. *Delete [ ] if not applicable.*

I have completed my examination. I confirm that no material matters have come to my attention in connection with the examination (other than that disclosed below *) which gives me cause to believe that in, any material respect:

- the accounting records were not kept in accordance with section 130 of the Charities Act; or
- the accounts did not accord with the accounting records; or
- the accounts did not comply with the applicable requirements concerning the form and content of accounts set out in the Charities (Accounts and Reports) Regulations 2008 other than any requirement that the accounts give a 'true and fair' view which is not a matter considered as part of an independent examination.

I have no concerns and have come across no other matters in connection with the examination to which attention should be drawn in this report in order to enable a proper understanding of the accounts to be reached.

* *Please delete the words in the brackets if they do not apply.*

**Signed:** E R-R  **Date:** 8/1/24

**Name:** EMYR RIGG-ROBERTS

**Relevant professional qualification(s) or body:** ICAEW FCA